Llais Y Derwent

Haf 2011 **Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg Canolbarth Lloegr** **Pris 25c**

Newyddion

Mae'r haf bron iawn wedi cyrraedd, ac mae nifer ohonon ni'n edrych ymlaen yn arw at yr Eisteddfod Genedlaethol draw yn Wrecsam, neu fynd ar wyliau dramor. Ond rhaid dweud ein bod ni wedi cael digon o gyffro yn lleol. Yn ddiweddar cawson ni Noson Lawen arbennig o dda draw yn Nottingham efo 50 o bobl a daeth ynghyd yn neuadd eglwys Sant Andreas, roedd bobl o Derby, Loughborough a Nottingham yn rhannu'r hwyl. Roedd sawl cyfraniad gan gynnwys canu, barddoni, a hefyd perfformiad y grŵp Gwerinol 'Y Derwentydd' o Belper. Os oedd sawl wyneb cyfarwydd yn y grŵp doedd hynny dim yn syndod oherwydd Elin Merriman a'i gŵr Ed, Marilyn Simcock a Jonathan Simcock oedd

aelodau'r grŵp. Roedd Elin yn canu'r Delyn, Marilyn ac Ed yn canu'r gitâr ac roedd Jonathan yn canu Melodeon a Chwibanau mawr. Mae'r grŵp yn gobeithio cyhoeddi CD cyn Nadolig eleni. Daeth y pedwar at ei gilydd fel grŵp yn wreiddiol er mwyn chwarae alawon fel rhan o'r Diwrnod Cerddorol sy'n cael ei drefnu bob blwyddyn yn y Gerddi Rhododendron, Lea.

Tri diwrnod yn ddiweddarach daeth 50 o bobl at ei gilydd unwaith eto er mwyn mynychu rhifyn o'r rhaglen radio *Hawl i Holi* a oedd yn cael ei recordio yng Ngholeg Sant Ioan, Bramcote. Yn ôl adroddiad sy wedi cael ei anfon aton ni gan BBC Radio Cymru cafodd y rhaglen derbyniaeth dda ymhlith gwrandawyr y sianel.

Yn Belper mae'r dosbarth Nos Iau'n mynd yn ei flaen o dan arweinydd medrus Elin Merriman, ac yn Derby mae'r grŵp Bore Dydd Mawrth yn parhau. Mae'r Gweithdy misol yn Derby yn mynd yn eithaf da efo cyfartaledd o 15 o bobl bob tro.

Mae'r amserlen Gweithdy ar gyfer 2011-2012 bellach ar gael ac mi fydd Ysgol Undydd Derby yn cael ei chynnal ar Sadwrn 15 o Hydref.

Mae'r Cylch yn gwneud cam ymlaen eleni trwy drefnu Cyngerdd Côr efo Côr Meibion Dunvant ar Nos Wener 28 o Hydref yn Eglwys y Bedyddwyr ar y cyd efo Cymdeithas Cymry Derby. Trwy wneud hyn yr ydyn ni'n gobeithio tynnu pobl newydd at bethau Cymraeg gan gynnwys dysgu'r iaith. Mae'r tocynnau ar gael am £6 pris llawn, neu £5 pris gostynedig.

Mynd ar gefn fy Meic.

Dw i'n dwli ar fy meic! Un Raleigh hen ffasiwn yw e, gyda gêr Sturmey Archer tri chyflymder a chloch enfawr sgleiniog. Credwch neu beidio, fe brynnais y gloch yn Sri Lanka, a dw i ddim yn swil i'w defnyddio chwaith!

Taith gorau i fi ar gefn fy meic yw hyd at arfarchnad tua dwy filltir i ffwrdd, oherwydd bydd rhan fwya'r daith ar hyd llwybr trwy gefn gwlad, trwy lecyn swynol gwarchodfa natur fechan, heb na siw na miw o geir swnllyd sy'n fygythiad enbyd i feicwyr fel fi. A dyma gyfle i mi synfyfyrio, 'i gofio am y pethau angofiedig'.

Cofiaf Mam yn prynu fy meic cyntaf pan oeddwn un ar ddeg oed, yn anrheg am basio prawf yr ysgol gramadeg. Cofiaf fynd dro ar ôl tro yn ôl ac ymlaen y ffordd trol rhwng ein fferm a'n pentref mewn tywydd braf a thywydd garw.

Ond yn anad dim, ymlwybro fel hyn trwy'r cefn gwlad yn gyfle i weld arwyddion newidiadau tymhorol; pethau fel ymddangosiad sydyn llygaid Ebrill melyn llachar, a wedyn mewn dim o dro, eu diflaniad llwyr yr un mor sydyn am flwyddyn arall! Ac yn yr adeg yma, yng nghanol Mehefin, dyma ji-binc yn canu'n ddi-baid ei gân mor undonog o hyd o hyd, ond bob tro'n gorffen gyda chrychlais deniadol.

Viv Harris

Geirfa.
dwli ar - to dote on
credwch neu beidio - believe it or not
ar gefn fy meic - on my bike
trwy gefn gwlad - through the countryside
llecyn swynol - a charming spot
gwarchodfa natur - a nature reserve
heb na siw na miw - without the slightest sound
'i gofio am y pethau angofiedig' - to remember about the forgotten things (Waldo Williams)
dro ar ôl tro - time and time again
ffordd trol - cart track
yn anad dim - above all
llygaid Ebrill melyn llachar - bright yellow celandines
mewn dim o dro - in no time
ji-binc yn canu'n ddi-baid - a chaffinch singing unceasingly
o hyd ohyd - over and over
bob tro'n gorffen gyda chrychlais deniadol —finishing every time with an attractive trill

---

Dyddiau Coleg

Yr oeddwn ar lansio tair blynedd ar gwrs Gradd Anrhydedd mewn Peirianneg Sufil yng Ngoleg Prifysgol Cymru yn Abertawe rhwng 1953 a 1956, ac yn edrych ymlaen i fwynhau'r cyfle yn fawr iawn. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r Gyfadran Beirianneg gael ei rhannu i fewn i adrannau maqnylach fel Mecanyddol, Trydanol, Sufil, a Chemeg a phedwar pennaeth newydd sef McMillan, Neal a Sellars yn gwylio drostynt. Fel mae'n digwydd darlithwyr o Brifysgol Caergrawnt oeddynt pob Jac ohonynt. Yr Athro Bernard Neal oedd pennaeth newydd Sufil, gwr tal, cyhyrog a gwyneb hawddgar yn ei dridegau cynnar, ai wallt wed'i blethu'n wastad i'r ochr. Dyn amryddawn oedd yn chwarae Tenis a Sgwash yn hynod o dda, a gwiethgarwch ym Mwyllgor Wimbledon hefyd Roedd ganddo ddant melys ar hen geir hefyd - Alvis oedd ganddo. Fel rwy'n cofio, fe oedd yr athro cyntaf i brynu Mini, a doniol oedd ei weld yn cyd – ymffurfio'i gorff i fychander y Mini!

Nid oedd neuaddau preswyl yn bodoli I fechgyn yn Abertawe y dyddiau hynny-dim ond i ferched yn Beck Hall yn yr Uplands, felly digs amdani! Roedd Mam wedi dod lan i Abertawe gyda fi i cyn y tymor i wneud siwr mod i'n mynd I aros mewn lle bach deche yn Pantygwydr Road. Roedd y lle i weld yn iawn cyn aros yno, y broblem oedd fod y wraig yn gadael y llestri bowlyd ar y ford am oriau, a ninnai'n gorfod astudio yn nhawch y bwyd. Arhosais am wythnos gyfan, ac yna'n chwilio am digs arall gyd Llew Jones. Myfyriwr aeddfed oedd Llew yn gwneud gradd paratoad yn y Gymraeg cyn ymadael am Aberystwyth i wneud gradd Diwinyddiaeth yng Ngoleg y Presbyteriaid. Cwrs chew mlynedd i gael y ddelwedd bwrpasol i weinidog eglwys, sef y Parchedig M Llewelyn Jones B.A., B.D. Roedd hon yn dair blynedd o feithryn brawdgarwch cynnes ac yr ydym wedi bod yn ffrindiau mynwesol drwy'r blynyddoedd. Mae'n wir fod y ffrindiau y gwnewch fel myfyrwyr yn aml yn aros am oes. Felly fe fyddem yn cerdded gyda'n gilydd bron pob bore, lawr o ben Hawthorn Road, heibio ffordd Sgeti, Lon Glanbrydan a lawr drwy barc Parkmill ac yn dod allan ger y Bryn Café ac yna i fewn i Barc Singleton, a draw i'r Abaty. Rwy'n cofio'r diwyrnod cyntaf yn glir iawn, yr awel Hydrefol yn chwythi'r dail melyn yn yr haul ar hyd y llwybr, a minnau'n llusgo fy esgydiau drwyddynt yn chwerthynllyd iawn. Ie dechrau ar brofiadau newydd.

Gwynne Davies

Geirfa
Cwrs Gradd Anrhydedd honours degree course
Cyfadran beirianneg Engineering faculty
Mecanyddol, Trydanol, Sufil, a Chemeg Mechanical, Electrical. Civil & Chemical
Caergrawnt Cambridge;
Hawddgar pleasant
Amryddawn variously skilled;
Cyhyrog muscular
Dant melys sweet tooth, attraction towards
Cydymffurfio conforming,-together shaping himself
Preswyl - lle i fyw;
Bodoli existing
Bowlyd dirty/used;
Myfyriwr aeddfed mature student
Diwinyddiaeth - Theology;
Delwedd - image
Llusgo - dragging

Llwybrau i'r gwaith,



Llwybrau i'r lle chwarae

I rai ohonon ni sy'n mwynhau'r cefn gwlad yng Nghymru a Swydd Derby, mae'na amryw wahaniaethau rhwng y ddwy fro: Yn gyntaf, mae 'na fynyddoedd go iawn yng Nghymru. Mae Kinder Scout, Bleaklow, Mam Tor a Win Hill gyda ni, yma yn Swydd Derby, ond does dim fel y Glyderau, y Carneddau, y Bannau Brycheiniog a, wrth gwrs, yr Wyddfa. Mae'r tirlun yn fwy a mwy gwyllt yn llawer o lefydd. Yn olaf, mae hi'n brysurach yn Swydd Derby, yn arbennig dros y penwythnos.

Er hynny, beth sy ganddyn nhw'n gyffredin? Mae'r ateb: Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae'r hawliau 'ma'n unigryw i Loegr a Chymru ac maen nhw'n ei hanfod llwybrau, ar gyfer cerddwyr a llwybrau ceffyl, ar gyfer marchogion a beicwyr. Mae rhai llwybrau hen ffyrdd ac roedden nhw'n cael eu defnyddio gan anturiaethwr, chwarelwyr a mwynwyr. Yn ogystal, roedd lawer o'r llwybrau'n cael eu defnyddio gan bobol i fynychu'r eglwys neu gapel.

Weithiau, dw i'n meddwl am y bobol 'ma a sut mae'r tir wedi newid ers eu dyddiau nhw. Efallai, pan r'yn ni'n mwynhau'r hawliau tramwy niferus yng Nghymru a Lloegr, dylen ni'n edrych ar y tirlun trwy eu llygaid nhw.

Martin Coleman

Gweithdai Cymraeg Derby
Bob Mis, Bore Dydd Sadwrn
Pris £5.50 y sesiwn
9.30y.b. tan 12.30 y.p.
Tiwtor Elin Merriman
Am fanylion ffoniwch
01773 827513



Dewis deg oddiar y silffoedd

Fel bo dyn yn mynd yn henach, mae'r syniad anghyffyrddus yn dod 'falle fydd rhaid cyfyngu a byw mewn tŷ llai o faint, neu mewn un 'stafell hyd yn oed. Os bydd rhaid dewis rhyw ddeg o lyfrau Cymraeg neu llyfrau a rhyw gysylltiad Cymreig i gludo i fy nghartref newydd, oddiar fy silffoedd, dyma fy newis heddiw. Yfory byddwn yn dewis rhai gwahanol.

Un o'r hoff lyfrau yn fy meddiant yw **Teulu'r Cilie** gan **Jon Meirion Jones**.

Hanes y teulu barddol enwog, a fagwyd yn y ganrif ddiwetha ar aelwyd fferm y Cilie ger Cwm Tydu a Llangrannog yn Sir Geredigion yw'r llyfr. Mae'n ddiddorol ac yn llawn o ddyfyniadau barddol o waith y teulu.

Yn ail **Hanes Cymry** gan **John Davies**. Os rhaid cyfyngu i ddeg mae'n syniad da i ddewis un neu ddau swmpus ac mae hwn yn swmpus, o ran nifer y tudalennau, dros 700, ac o ran ehangder y drafodaeth o hanes Cymru hefyd.

Yn nesaf dewis arbennig o bersonol, sef **Diaries of Thomas Jenkins, Llandeilo**. Gan mai brodor o ymyl Llandeilo wyf, mae hwn yn taro'r nodyn iawn i mi. Dyddiadur saer coed ydyw a ysgrifennwyd yn yr oes Fictoraidd. Rwy'n trysori fy nghopi o lyfr sydd bellach allan o brint.

Rhaid cael un hunangofiant o leiaf, a beth gwell na **Hen Dy Ffarm** gan **D J Williams**? Clasur o hunangofiant. Anrheg i fy nhad amser Nadolig 1953 oddiwrth fy mam yw'r gyfrol yn fy meddiant i.

Mae gen i argraffiad weddol newydd o **Caneuon Ffydd** a rhaid mynd a hwnnw. Tybed a fydd na le i keyboard bach electronig i mi gael taro allan y tiwniau (un llaw ar y tro)? Ond 'fallai fydd fy mysedd yn rhy lawn o wynegon* erbyn hynny. Beth an ffuglen? A dweud y gwir nid wyf yn ddarllenwr brwd iawn o ffuglenni, (colli diddordeb ar ôl pennod neu ddwy!), ond pan oeddwn yn fy arddegau gwnaeth nofelau **T Rowland Hughes** argraff mawr arna'i. Dewisaf **Y Chwalfa**, nofel afaelgar wedi ei seilio amser y streic fawr yn y chwareli llechi gynt. Yn fwy cyfoes, ces flas ar un o nofelau **Mihangel Morgan** ac felly fe brynaf un arall o'i waith i 'w roi yn y bocs - **Dan Gadarn Goncrit** efallai gan obeithio am fwynhad.

Rwy'n hoff o farddoniaeth ac ymlaen a ni wedi ddewis dau lyfr o farddoniaeth, yn gyntaf **The**

Collected Poems of Idris Davies. Bardd eingl/ gymraeg oedd Idris Davies a fagwyd yn Rhymni yn Sir Fynwy.Mae ei gerdd hir Gwalia Deserta yn adleisio'n nerthol y cyfnod diweithdra yn y cymoedd. Anodd iawn yw dewis cyfrol o farddoniaeth Cymraeg. Gormod o ddewis! Mae **Hoff Gerddi Cymry** a ddaeth allan dros y mileniwm yn llawn o gerddi adnabyddus yr iaith, ac os fydd y cof yn dechrau pallu, peth da fydd cael rhywbeth adnabyddus i ddarllen. Byddwn yn drist hefyd petawn yn gorfod gadael fy nghopi o'r gyfrol, **Barddoniaeth Rhydwen Williams** ar ôl. Mae ei gerdd hir "Senghennydd" yn wych. Felly i mewn i'r bocs ag ef.

Yn awr, dim llyfr, ond dau **fap Arolwg Ordnans** sydd yn fy mherchen, un o Ogledd Cymru a'r llall o Dde Cymry. Ac fel llawlyfr i'r mapiau,**Y Llyfr Enwau** gan **D Geraint Lewis** sydd yn esbonio ystyr enwau llefydd Cymru.

I gloi dyma ddewis un ar hap, oddiar y silffoedd. Caeais fy llygaid a phwyntio ar un llyfr neithiwr a digwydd disgyn ar **Cwm Eithin** gan **Hugh Evans**, a chofiais cael mwynhad mawr wrth ei ddarllen. Hen lyfr a gyhoeddwyd yn 1931 sy'n disgrifio'r hen ffordd o fyw yn Nghwm Aled , Sir Ddinbych. Llyfr ardderchog i **hen** ddyn, **hen** ffasiwn, yn ymddiddori yn yr **hen** bethe!
Ni fedrais cyfyngu i ddeg wedi'r cwbwl. Wel ta ots. Fe fydd na gornel fach yn sbâr. Yn y tŷ bach efalle! Wrth gwrs be bawn yn prynu darlledydd electronig fel KINDLE byddai le i gannoedd o lyfrau, ond fel y dwedais 'rwyf yn henffasiwn.

Daliwch ati, dysgwyr Derby. Mae'r ffordd yn anodd a'r treigliadau'n ddiawledig. Ond mae'n werth yr ymdrech!

Howell Price

*Gwynegon = ein gair ni yn Sir Gaerfyrddin am rhiwmatics neu gricymalau

Eisteddfod
GENEDLAETHOL CYMRU

Eisteddfod Wrecsam a'r Fro
30 o Gorffenhaf - 6 Awst 2011

Dysgu Cymraeg?
Dyma'r lle i fod!

Pabell fawr yw Maes D
gyda llawer o weithgareddau
i bawb sy'n dysgu Cymraeg.

Dewch draw i gyfarfod pobl
eraill sy'n dysgu Cymraeg.

Cymru ar y We

Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Drych Digidol: www.llgc.org.uk
Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth
www.aber.ac.uk/artscentre
Golwg 360
www.golwg360.com
Prifysgol Cymru Coleg Bangor
http://www.bangor.ac.uk
Eisteddfod Genedlaethol Cymru
www.eisteddfod.org.uk
S4C Language Centre
http://www.learnonS4.co.uk/home.php
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
Clwb Malu Cachu
http://www.clwbmalucachu.co.uk/index.htm
Canolfan Cymry Llundain
http://www.londonwelsh.org
Cymdeithas Cymreig Birmingham
http://www.birminghamwelsh.org.uk/
Cymrodorion Maesbedr
http:///www.users.global.net.co.uk/~scrol/pws/mapysafle.html
Northwich Welsh Society
http://freespace.virgin.net/usedto.be/index.html
Clwb Clebran Bradford
http://www.communigate.co.uk/brad/welshclwbclebran/
Nant Gwrtheyrn Language Centre
http://nantgwrtheyrn.org

Cymdeithas Cymry Nottingham

Cyfarfod Bore Coffi
'Popeth yn Gymraeg' Misol
i Gymry Cymraeg
Am fanylion cysylltwch a
Gwynne Davies ar
0115 925 9613

Menter Iaith Lloegr

Safle ar Facebook i'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg hyd a lled Lloegr.

Cysylltu a Llais Y Derwent
trwy 01773 827513 neu anfon ebost i
dysgwyr5@virginmedia.com
neu gwelir

www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com